

Prifysgol Abertawe

Papur Nodyn Cyfarwyddyd WMGN03 ar Reoli Gwastraff

| | |
|--------------------------|----------------|
| Awdur: | Fiona Wheatley |
| Cymeradwywyd gan: | Fiona Abbott |
| Dyddiad creu: | 09/11/2018 |

| Nodyn Cyfarwyddyd WMGN03 ar Reoli Gwastraff | |
|--|-----------------------------|
| Papur | |
| Lleoliad cynhyrchu | Amrywiol |
| EWC | 20 01 01 |
| Math | Gwastraff nad yw'n beryglus |
| Dull Gwaredu | Didoli i'w ailgylchu |
| Math o Fin/Fag | Rhes o bedwar bin/Bag clir |

Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai busnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff gymhwyso'r hierarchaeth gwaredu gwastraff i'r holl ffrydiau er mwyn lleiafu maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu. Yn ymarferol, golyga hyn sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddioli cyn ei waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig cyffredinol oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddioli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr ar wahân i'w gilydd os oes angen annog ansawdd uchel deunyddiau sydd i'w hailgylchu.

Er bod hyn wedi'i ddsbarthu fel gwastraff nad yw'n beryglus, mae'n ofynnol yn gyfreithlon o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i ddioli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod yr holl wastraff wedi'i ddsbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus drwy'r ffrwd ar gyfer gwastraff dinesig cyffredinol yn anghywir arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r weithred o beidio â chydymffurfio.

Mae eitemau papur a cherdyn sy'n addas i'w hailgylchu'n cynnwys:

- Tameidiau o bapur
- Papur/cerdyn wedi'i rwygo
- Hen gylchgronau, pamffledi a phapurau newydd

Eitemau

Dylid rhoi papur a cherdyn yn y biniau gwastraff papur/cerdyn yn unig (fel arfer yn rhan o resi o bedwar/ddau fin gwastraff safonol y Brifysgol). Yn achos deunydd nad ydych yn gwybod beth yw'r hyn mae'n ei gynnwys a/neu ddeunydd sydd wedi'i halogi, yna e-bostiwch y Tîm Cynaliadwyedd yn (estates-waste@abertawe.ac.uk) i gael arweiniad a rhagor o fanylion.

Ni ddylid gwneud y canlynol o dan **unrhyw** amgylchiadau;

- (a) rhoi gwastraff cyffredinol yn y bin ailgylchu – mae'n halogi'r ffrwd ailgylchu a gall achosi problemau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi
- (b) rhoi gwastraff cyfrinachol sydd heb gael ei rwygo yn y bin ailgylchu – gweler WGN05 i gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael

Cyfarwyddiadau Gwaredu

Biniau mewnol

Dylid defnyddio rhes o bedwar/ddau fin metel sydd â chaeadau'n unig ar gyfer gwaredu papur/cerdyn. Rhoddir label "Papur Cymysg" ar yr holl gynwysyddion a bydd ganddynt fag clir. Ni ddylid defnyddio cynwysyddion personol/o dan eich desg mewn swyddfeydd gan fod hyn yn atal ailgylchu deunyddiau.

Ni ddylid rhoi cwpanau coffi neu hylif yn adran 'papur' y rhes o bedwar/ddau fin o dan unrhyw amgylchiadau.



Ffigur 1 – rhes o bedwar bin dan do Prifysgol Abertawe

Storio allanol

Dylid defnyddio rhesi o bedwar/ddau fin metel sydd â chaead wrth eu blaenau'n unig i waredu papur/cerdyn. Rhoddir label "Papur Cymysg" ar yr holl gynwysyddion. Ni ddylid defnyddio biniau eraill ar gyfer eitemau rhydd.



Ffigur 2 – rhesi o bedwar bin allanol a bin contractwr allanol Prifysgol Abertawe

Caiff bagiau bin clir a gesglir eu rhoi yn y biniau mwy dynodedig (wedi'u darparu gan y contractwr rheoli gwastraff), a leolir mewn cyfadeiladau ledled ystadau'r Brifysgol.

Cost waredu

Mae'r gost o waredu'n cael ei hystyried fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/golegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag, gall unigolion leiafu'r gost a chyfrannu at nod y Brifysgol o gyflawni cyfradd o 63% o ran osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, neu droi gwastraff yn ynni, drwy sicrhau bod yr holl bapur a cherdyn yn cael eu gwaredu drwy'r biniau dynodedig.

Labelu

Gweler y templed

I gael rhagor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

